CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 20, 2024

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain**
**Nos Fawrth, Chwefror 20, 2024 am 7:30 o'r gloch.**

**www.cyngorllanfachreth.cymru**

**Presennol** Cynghorwyr Gerallt Griffith, Rhun Prys Jones, Peredur Jenkins, Robin Jones, Karen Goswell, Barry Jones. Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Yn absenoldeb Meurig Ashton (Cadeirydd) cadeirwyd y cyfarfod gan Gerallt Griffith (Is-gadeirydd). Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Meurig Ashton (Cadeirydd), Llion Williams, Emlyn Roberts, Cyng. Delyth Lloyd Griffiths.

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 20, 2024.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 20, 2024.**

Eitem 11.b. Pasiwyd y llythyr ynglŷn â choeden rhwng yr Ysgol a Tai Cyngor i Adra sydd am roi sylw i'r mater.

Eitem 11.a. Derbyniwyd prisiau gan Mr Owen B. Pugh (£351.36 + VAT) a Jones Bros (£597.00 ex VAT) i drwsio hysbysfwrdd Rhydymain.

Penderfynwyd i Robin Jones gwneud ymoliadau am hysbysfwrdd newydd.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (20/1/2023) oddi wrth Mike Owen, Clerc Cyngor Cymuned Ganllwyd gyda poster 'Cyfarfod Cyhoeddus' yn Neuadd y Pentref, Ganllwyd ynglŷn â 'Beth fydd y dyfodol i Ganolfan Ymwelwyr Coed y Brenin?'. Cyfarfod ar 1 Chwefror am 6:30yh.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Gweler Eitem 10.b.

b. Llythyr (24/1/2024) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am waharddiad trafnidiaeth dros dro ar ffordd o Dŷ Newydd Uchaf i Fryn Araul, Rhydymain. Bydd y ffordd ar gau ar 24/1/2024 am 3 diwrnod ond nid hwy na 5 diwrnod i BT Openreach gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (26/1/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Taclusi Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Brithdir a Llanfachreth ar 5-9/2/2024.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

## 7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/LB210C. Trosi adeiladau cwrtil prif adeilad Caerynwch yn bedwar bwthyn. Trosi adeilad modurdy a storfa goed presennol yn fwthyn un ystafell wely. Trosi'r modurdy pedwar bae a lloft trosodd yn fwthyn dwy ystafell wely. Adeilad a unedau preswyl presennol trost y stablau i'w trosi yn fythynod dwy ystafell wely gefn yn gefn ar holl waith perthnasol. Caerynwch, Brithdir.

Mae apêl wedi ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r datblygiad yn dilyn gwrthod caniatad cynllunio gan yr Awdurdod.

b. Cais cynllunio NP5/54/LB210D. Caniatad Adeilad Rhestredig i drosi tri adeilad cwrtil prif dy Caerynwch yn bedwar bwthyn, Modurdy a strofa coed i'w trosi yn fwthyn un ystafell wely, gyda cegin/ystafell fyw cynllun agored, llosgwr coed a ffliw drwy'r to talcen drychiad De estyniad ystafell ymolchi unllawr wedi ei gwydro'n rhannol ac agoriadau presennol drychiadau Dwyreiniol a Gorllweinol wedi cau a unedau gwydr hyd llawr. Certws pedwar bae i'w cau a paneli gwydr hyd llawr gyda estyniad ffram bren yng nghefn yr adeilad sydd yn llety i'r grisiau sy'n arwain i'r ystafell wely nenfwd, rhan o wal fewnol Gorllewinol i'w thynnu lawr a'i gwydro a paneli i'r ystafell ymochi. Stablau a deunydd preswyl presennol uwchben i'w trosi yn ddau fwthyn gefn yn gefn a chegin a ystafell fyw cynllun agored llawr daear gyda grisau yn arwain at ystafell wely 'en-suite', ystafell ymolchi ac ystafell wely 2 ar y llawr cyntaf. Estyniad ffram bren a gwydr trost y fynedfa grisiau allanol drychiad Dwyreiniol ar holl waith perthnasol. Caerynwch, Brithdir.

Mae apêl wedi ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r datblygiad yn dilyn gwrthod caniatad cynllunio gan yr Awdurdod.

Dyma sylw Karen ar gais NP5/54/LB210D (oddi ar wefan y Parc):
Y rhesymau am ddyfarniad yr Awdurdod am wrthod caniatau y datblygiad ydyw:
1. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn annigonol ac yn brin o fanylion ynghylch effaith bosibl y gwaith arfaethedig. O ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth a ddarparwyd, mae'r cais yn cyflwyno risg sylweddol i ffabrig, cymeriad ac

edrychiad adeiladau rhestredig y cwrtil ac mae'n cyflwyno effaith andwyol bosibl ar osodiad cysylltiedig Caerynwch sy'n rhestredig Gradd II a hefyd ar y berthynas rhwng yr adeiladau. Mae'r cynnig felly yn methu â bodloni gofynion Polisïau A, Ff, 1, 6 a 7 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031; y canllawiau a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru 11 (Chwefror 2021), yn benodol paragraffau 6.1.10 i 6.1.13; a'r canllawiau a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol, yn benodol paragraffau 5.9 i 5.27.
** MAE’N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU AMGAEEDIG
Dim ond diffyg manylion oedd rheswm y Parc am wrthod y cais, mae'n ymddangos.
):

Dyma sylw Emlyn ar geisiadau cynllunio:
A oedd adroddiad y swyddog ar gyfer y cais neu dim ond y rhesymau bras dros wrthod? Mae wedi dod i'm sylw gan gynghorydd sydd ar bwyllgor cynllunio y Parc fod raid i gynghorau cymuned roi rheswm dros gefnogi ceisiadau cynllunio gan nag ydi cefnogi yn unig yn cario dim grym gyda'r swyddogion.  Os nag ydynt yn gweld fod pobol sydd yn fodlon buddsoddi arian sylweddol yn cynnal a datblygu'r adeiladau rhestredig yma mae angen edrych ar strwythur gynllunio y Parc (a Cadw o ran hynny) a synnwyr cyffredin y swyddogion sydd yn eu gweithredu.  Mae'n edrych yn debyg fel petai well gan y swyddogion cynllunio a hefyd Cadw gweld adeiladau yn mynd a'u pen iddo yn adfeilion nag cael eu hadfer a'u datblygu, engraifft o hyn ydi plas Nannau.  Fel mae y drefn bresennol bydd mwy o geisiadau cynllunio yn mynd i apel fydd yn creu mwy o waith i staff sydd eisoes yn methu.  Mae hefyd yn peri y cwestiwn beth i'w swyddogaeth a diben pwyllgor cynllunio y Parc pan nad oes fawr ddim o geisiadau yn mynd ger eu bron.
Os oes cais am resymeg dros gefnogi'r ceisiadau dwi'n cynnig fod yn well gweld adeiladau yn cael eu cynnal a'u cadw nag yn mynd yn adfeilion.  Bydd canllawiau Cadw yn sicrhau bod cymeriad yr adeiladau a deunyddiau a ddefnyddir o fewn eu canllawiau.
Mae 'Digon yw digon' yn dod i'r meddwl yn fwy aml !

Dyma sylw ymhellach Karen ar y cais ac ar sylwadau Emlyn:
Cododd Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon y byddai angen ystyried yr ystlumod, pe bai'r awdurdod am fynd ymlaen a chymeradwyo'r cais, ond amherthnasol yw hyn tra bod y cais wedi'i wrthod.
Cytuno cant a chant â thi, Emlyn - dydi'r system ddim yn gweithio'n dda er budd ein hen adeiladau na'n cymuned, yn amlwg.
Adeg y ceisiadau cyntaf ar gyfer Caerynwch, y prif dŷ, dw i'n cofio i ni i gyd fod yn frwdfrydig bod y perchnogion yn fodlon gwario cymaint ar y lle, a hynny mewn modd mor sensitif.  Ydach chi'n cofio'r cynlluniau manwl i adfer y 13(!) lle tân?
Daeth y cais i ddatblygu'r modurdy ac ati wedyn, fel newid cyfeiriad braidd ar gyfer y safle, o fod yn gartref moethus preifat i fod yn fusnes twristiaeth.  Cyn i ti ei ddweud eto, Emlyn, dwi'n gweld sut y gallai'r unedau gwyliau gefnogi'r tŷ mawr, wrth gwrs.  Dwi'n dal i feddwl y dylai'r cynllun llawn fod wedi bod ar y bwrdd o'r dechrau!  Ta waeth, doedd gan ein cyngor ni ddim hawl i wrthod ar sail tai gwyliau, dwi ddim yn meddwl, hyd yn oed petasai awydd gwneud, a phawb am weld yr hen adeiladau'n cael eu defnyddio a'u cynnal.  Dyma, felly, gefnogi'r cais ar y pryd.
Rŵan, a'r apêl wedi dod, nid oes manylion pellach/gwahanol eto, hyd y gwelaf. 'Fallai

bydd rhywbeth ar y wefan erbyn ein cyfarfod.

**8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (12/1/2024) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi gwybod mae'r ad-daliad i'r Clerc a Cyllid a Thollau EM yn £345.06.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Oherwydd diffyg dealltwriaeth y Clerc a sgwrs oedd ei angen gyda Mrs Rhian Davies, Swyddog gyda E.W. Owen a'i Chwmni, y taliad i'r Clerc yw £293.28 (i Ionawr), £293.08 (i Chwefror) a £293.28 (i Mawrth). Y taliad i Cyllid a Thollau EM yw £73.20 (i Ionawr), £73.40 (i Chwefror) a £73.20 (i Mawrth).

b. Llythyr (22/1/2024) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth ariannol.

c. Llythyr (12/2/2024) oddi wrth Marie Curie Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

ch. Cerdyn (20/2/2025) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth. Maent angen cymorth ariannol.

d. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Cerebral Palsy Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Theatr Baracaws, Llên y Llannau, Dawns i Bawb, Marie Curie Cymru, Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd.

Llythyr (16/11/2022) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2023-24. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 o dan adran 137 (1) a (3) £9.93 fesul etholwr er budd yr ardal.

Bydd yr uchafswm yn £9.93 x 603 = £5,987.79.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Ambiwlans Awyr Cymru - £250
Llên y Llannau - £50.

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):
Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth - £350.
Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth - £350 (16/5/2023).
Urdd Gobaith Cymru - £100.

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £350

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):

Neuadd Brithdir: £800
Neuadd Rhydygorlan: £800
Neuadd Llanfachreth: £800
Neuadd Rhydymain: £800

Cyfanswm = £4,650.00.

dd. Rhoddwyd rhodd o £350 i Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth. Gweler cofnodion Mai 16, 2023, Eitem 9.a.

e. Mae angen talu’r Clerc £150 tuag at weithio o adref 2023-2024. (Gweler cofnodion Tachwedd, 2023, eitem 5.dd.

Penderfynwyd talu’r swm.

f. Bil (23/1/2024) am £435.20 oddi wrth Cyngor Gwynedd am bin halen (gyda halen) yn Forset Lodge, Llanfachreth.

Llythyr (8/2/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae’r bin halen wedi ei osod yn y lleoliad. Cafwyd wybod gan Delyth (12/2/2024) bod y bin wedi ei leoli mewn lle addas. (Gweler Eitem 10.a. Cofnodion Ionawr 15, 2024).

Penderfynwyd talu’r bil

ff. Bil (31/1/2024) am £216 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn 1af Mawrth, 2024 i gynnal a chadw’r wefan am flwyddyn arall.

Penderfynwyd talu’r bil

g. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/1/2024: £1,163.51
Balans yn y banc ar 29/1/2024: £11,923.90.

**9. Archwilio**

**10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Fe gyhoeddwyd (5/2/2024) ddatganiad rhagweithiol gan Cyngor Gwynedd yn ystyried cynllun i gyfarch bwlch ariannol o £15 miliwn (llyw.cymru)), er mwyn gosod y cyd-destun ac egluro'r sefyllfa amhosib mae llywodraeth leol yn ei wynebu. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd trafodaethau cyhoeddus pellach, ac fe gyflwynir i

Gabinet y Cyngor ar 20 Chwefror, ac yna bydd Cynghorwyr Gwynedd yn cytuno ar gyllideb derfynol yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth.

b. Cyfarfod Coed y Brenin 1/2/24:
Dros 200 wedi mynychu
Dros 330 wedi llenwi holiadur
Gweithgor lleol yn cael ei arwain gan Rhys Llywelyn wedi ei sefydlu.
Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi gwybodaeth am ddyfodol y safle. Roedd rhai gyda diddordeb i dderbyn cytundeb i redeg y lleoliad a chyfarfod Cyngor Cymuned Y Ganllwyd ar 7/2/24 i drefnu y camau nesaf. Daeth dros 250 o holiaduron i law.
Diolch i bawb a ddaeth i'r cyfarfod a diolch am eich cefnogaeth.

c. Dyma y diweddaraf ar fater Pont Rhydymain ar yrA494
1.Dwi wedi siarad â Peredur (Percy) Trunk Roads Gwynedd heddiw.
Mae yn dweud mai swydd Trunk Roads yw hon a bod YGC wedi cael y gwaith i wneud y cynlluniau ar gyfer gwaith sylweddol.
(Nid yw Rhydymain yn ardal Peredur).
Mae Peredur wedi rhoi e bost ar gyfer yr adran Strwythurau( structures) traffig.cymru i mi a dwi wedi cysylltu â nhw (a chopi i Mabon ap Gwynfor) heddiw, yn gofyn am ddiweddariad.
2.Gan mai YGC sydd wedi /yn gwneud y gwaith cynllunio ar gyfer y bont, dwi wedi e bostio Emlyn Jones ( Pennaeth YGC) heddiw yn gofyn am ddiweddariad.( Nid yn y gwaith tan 26/2/24).
3.Byddaf yn cyfarfod a Mabon yfory (gobeithio) ac yn codi y mater yma eto i weld beth yw ei farn am y ffordd ymlaen.
Diolch am dy holl gymorth gyda'r mater yma.
4.Byddaf yn cysylltu â Emlyn Jones (YGC) ar ôl 26/2/24.
5.Mae Traffic Cymru wedi cadarnhau y bydd ateb i ni mewn 20 diwrnod ( gweler atodiad).

ch. Goleuadau yn ardal y Neuadd yn Rhydymain.
Mae yr ymweliad safle gyda aelodau o Bwyllgor y Neuadd wedi cael mynd yn dda heddiw.
Nid yw yn waith mawr i redeg y trydan i lamp newydd yng nghefn y Neuadd.
Bydd Peter Roberts yn anfon adroddiad cyn y cyfarfod nesaf.

## **<u>11. Materion yr Aelodau</u>**

a. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg 2023-2024.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

<u>Penderfynwyd</u> derbyn y Rhaglen Asesiad Risg.

b. Mae angen cadarnhau Asedion 2023-2024.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn yr Asedion.

c. Mae angen adolygu ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad, Cynllun Hyfforddiant.

Mae'r polisiau ar wefan y Cyngor. Yr unig newid oedd yn Rheoliadau Ariannol gyda newid i Eitem 11.1.g. Gweler Cofnodion Gorffennaf 18, 2023, Eitem 5. Eitem 9.b.4.

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

ch. Galwad ffôn (13/2/2024) oddi wrth yr Eglwys yn gwahodd ni i wasanaeth sefydlu y Parchedig Ddr Carol Roberts yn rheithor ar y plwyf. Bydd y gwasanaeth yn Eglwys Santes FaIr ar ddydd Sul, Mawrth 3, 2024 am 3.00yp.

d. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen clirio sbwriel sydd yn y gilfach barcio wrth Dolgamedd, Brithdir, ar riw ffordd B4416.

Llofnod: Dyddiad:

----------------